# Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin: Cwotâu a gwahardd taflu pysgod yn ôl i'r môr

## Mehefin 2014

## Cyflwyniad

Ar 1 Ionawr 2014, cyflwynodd yr UE Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC) diwygiedig1. Un o'r agweddau allweddol ar y diwygiadau a gyhoeddwyd oedd cyflwyno rhwymedigaeth lanio, sydd hefyd yn cael ei galw'n waharddiad ar daflu pysgod yn ôl i'r môr. Cyflwynir y diwygiad hwn yn raddol fesul pysgodfa hyd at 2019. Nod y gwaharddiad yw lleihau'r achosion o ddychwelyd pysgod i'r môr, yn aml pan fyddant yn farw neu ar fin marw, o ganlyniad i'r system gwotâu.

## Cwotâu a chyfanswm y ddalfa a ganiateir

O dan y PPC, caiff terfynau dal pysgod eu pennu bob blwyddyn fesul rhywogaeth ar gyfer y rhan fwyaf o stociau, neu bob dwy flynedd ar gyfer stociau'r dyfnfor, yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol gan nifer o gyrff cynghorol, ac yn unol â chymeradwyaeth Cyngor Gweinidogion yr UE.

Cyfeirir at y terfynau hyn fel cyfanswm y ddalfa a ganiateir (Total Allowable Catches), ac fe'u rhennir rhwng yr aelod-wladwriaethau. Mae dros 130 o stociau gwahanol yn destun terfynau o'r fath ar hyn o bryd. Dyrennir canran wahanol o bob stoc, sef cwota, i bob aelod-wladwriaeth arfordirol. Yna gall gwledydd gyfnewid eu cwotâu a'i gilydd. Pan fo aelod-wladwriaeth yn cyrraedd y cwota ar gyfer math penodol o bysgodyn yn ei dyfroedd tiriogaethol, mae'n rhaid i'r wladwriaeth honno gau'r bysgodfa. Mae aelod-wladwriaethau'n gyfrifol am ddyrannu a monitro eu cwotâu eu hunain, ond o dan y PPC diwygiedig, dylent geisio rhoi blaenoriaeth i fflydoedd arfordirol crefftwrol, ar raddfa fach. Mae'r PPC diwygiedig hefyd yn cynnwys darpariaethau i roi cymhellion cwota i fflydoedd sy'n gwneud llai o niwed i'r amgylchedd.

Mae'r system gwotâu yn ffordd o reoli allbwn ac mae'n berthnasol i bob aelod-wladwriaeth, ac eithrio'r rhai sy'n pysgota ym Môr y Canoldir. Mae'r gwladwriaethau sy'n defnyddio'r dyfroedd hynny yn destun rheolaethau mewnbwn ar y cyfan, gan gynnwys mesurau sy'n ymwneud â mynediad i ddyfroedd, rheolaethau ar yr ymdrech bysgota a chyfyngiadau offer.

– Cafwyd cryn feirniadaeth o'r ffordd yr arferai'r system gwotâu weithio cyn cyflwyno'r diwygiadau, am ei bod yn cynnig cymhellion gwrthnysig i ddychwelyd pysgod diangen i'r môr. Gan nad oes modd, o reidrwydd, i offer pysgota wahaniaethu rhwng pysgod, gellir dal sawl math o bysgodyn pan mai dim ond un sy'n cael ei dargedu. Gan fod pysgotwyr yn gorffod cydymffurfio â chyfyngiadau cwota, arweiniodd hynny at yr arfer o ollwng pysgod llai gwerthfawr a'u dychwelyd i'r môr. Mae'r gyfradd oroesi'n isel yn achos rhai o'r pysgod sy'n cael eu taflu yn ôl i'r môr fel hyn, ac mae'r arfer wedi'i feirniadu am fod yn wastraffus. Er mwyn sicrhau bod llai o bysgod yn cael eu taflu yn ôl i'r môr, cyflwynwyd rhwymedigaethau glanio yn y PPC diwygiedig, gan wahardd taflu pysgod yn ôl i'r môr.

[1] Yr Undeb Ewropeaidd, ***y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin*** [fel ar 20 Mai 2014]

## Gwahardd taflu pysgod yn ôl i'r môr

Mae Erthygl 15 o'r PPC yn ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw bysgod sy'n destun terfynau dal yn cael eu cadw ar fwrdd y llong bysgota a'u cyfrif yn erbyn y cwotâu, ac eithrio bod rhanddirymiadau penodol yn gymwys. Mae'r rhwymedigaeth lanio yn cael ei chyflwyno'n raddol fesul pysgodfa:

- **Ionawr 2015**: Pysgodfeydd pelagig bach (e.e. mecryll, penwaig, sardinau), pysgodfeydd pelagig mawr (e.e. tiwna, cleddbysgod, marlyniaid), pysgodfeydd y diwydiant (e.e. llymrïod, swtain Norwy), pysgodfeydd eog Môr y Baltig.
- **Ionawr 2015 - Ionawr 2017**: Holl rywogaethau eraill Môr y Baltig sy'n destun cwotâu.
- **Ionawr 2016**: Pysgodfeydd cimwch Norwy, lledod gwadn, lledod a chegdduon (Môr y Gogledd, dyfroedd y gogledd-orllewin a dyfroedd y de-orllewin), penfreision, corbenfreision, gwyniaid, celogiaid (Môr y Gogledd a dyfroedd y gogledd-orllewin) a chorgimwch y gogledd.
- **Ionawr 2017 - Ionawr 2019**: Holl rywogaethau eraill Môr y Canoldir, y Môr Du a dyfroedd eraill yn yr UE nad yw cyfyngiadau mis Ionawr 2015 yn berthnasol iddynt.
- **Ionawr 2019**: Holl rywogaethau eraill Môr y Gogledd/dyfroedd y gogledd-orllewin/dyfroedd y de-orllewin sy'n destun cwotâu.

Caiff rhwymedigaethau'r gwaharddiad ar daflu pysgod yn ôl i'r môr eu nodi mewn cynlluniau amlflwydd ar gyfer pysgodfeydd cyfan, ar sail math penodol o stoc neu lawer o fathau o stoc gwahanol. Mae'r cynlluniau hyn yn gosod nodau ar gyfer nifer y pysgod marw, neu faint y stoc darged. Yn y ffordd hon, y gobaith yw y bydd modd rheoli pysgodfeydd yn fwy effeithiol yn yr hirdymor. Os na fydd gan bysgodfa gynllun amlflwydd ar waith, caiff cynllun ei ddatblygu o ran taflu pysgod yn ôl.

At hynny, mae isafswm maint yn berthnasol i rywogaethau sy'n destun i'r gwaharddiad, er mwyn diogelu pysgod ifanc. Bydd yn rhaid cadw pysgod sy'n llai na'r isafswm maint ar fwrdd y llong, a byddant yn cael eu cyfrif yn rhan o'r cwota. Fodd bynnag, ni ellir eu defnyddio at ddibenion lle cânt eu bwyta'n uniongyrchol gan bobl. Gellir eu defnyddio, er enghraifft, fel bwyd anifeiliaid anwes, blawd pysgod a cholur.

Mae'r ffyrdd eraill hyn o ddefnyddio'r pysgod yn llai proffidiol i bysgotwyr, a thrwy eu gorfodi i gadw'r pysgod ar fwrdd y llong, nod y gwaharddiad yw cymell pobl i ddefnyddio offer sy'n gallu gwahaniaethu'n well rhwng pysgod

## Eithriadau i'r gwaharddiad

Nid yw'r gwaharddiad yn un cyffredinol ac mae rhai eithriadau i'w cael:

- Rhywogaethau y gwaherddir eu pysgota (e.e. heulforgwn). Dylid dychwelyd y rhywogaethau hyn i'r môr yn syth.
- Rhywogaethau y caniateir eu pysgota ac nad ydynt yn destun cwota (e.e. draenogod y môr). Nid oes unrhyw reolau o ran taflu'r pysgod hyn yn ôl i'r môr.
- Rhywogaethau y mae tystiolaeth wyddonol yn dangos bod ganddynt gyfradd oroesi uchel (o ystyried nodweddion offer ac arferion pysgota, a'r ecosystem).
- Pysgod sy'n cael eu dal sy'n destun eithriadau 'de minimus'. Mae'r eithriadau hyn yn golygu y gellir taflu canran fach o bysgod yn ôl i'r môr o hyd o dan amgylchiadau penodol. Bydd aelod-wladwriaethau'n defnyddio'r eithriadau os bydd tystiolaeth wyddonol yn dangos ei bod yn anodd iawn pysgota mewn ffordd ddewisol yn y bysgodfa benodol honno, neu os bydd ceisio osgoi dal pysgod llai gwerthfawr yn creu effaith economaidd anghymesur.

– Gellir defnyddio eithriadau 'de minimus' ar gyfer hyd at 5% o'r holl rywogaethau sy'n destun i'r gwaharddiad ar daflu pysgod yn ôl i'r môr. Bydd y ganran hon yn cynyddu dau bwynt canran yn nwy flynedd gyntaf y gwaharddiad, ac un pwynt canran yn y ddwy flynedd wedyn.

## Perthnasedd i Gymru

### Cyfrifoldeb Datganoledig

Mae **Concordat Pysgodfeydd y DU 2012** yn rhoi cyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru weithredu a gorfodi'r PPC yn nyfroedd tiriogaethol Cymru. Mae dyfroedd tiriogaethol Cymru yn ymestyn i'r ffin ag Iwerddon.

### Cwotâu Pysgota yng Nghymru

Ar hyn o bryd, rhennir cwota pysgota'r DU rhwng tri grŵp ar wahân[2]:

– **Y sector**: Mae'r grŵp hwn yn cynnwys 23 o sefydliadau cynhyrchu, sy'n rheoli dros 90% o'r cwota yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Mae un o'r sefydliadau cynhyrchu hyn yn gweithredu yng Nghymru, ac fe'i gweinyddir gan y Sefydliad Rheoli Morol.

– **Y tu allan i'r sector**: Mae'r grŵp hwn yn cynnwys llongau dros ddeg metr o hyd nad ydynt yn perthyn i sefydliad cynhyrchu.

– **O dan ddeg**: Mae'r grŵp hwn yn cynnwys fflydoedd pysgota sy'n llai na deg metr o hyd.

Rhennir cwota y DU rhwng y grwpiau hyn, ac yna fe'i rhennir rhwng gweinyddiaethau pysgodfeydd y DU yn unol â meini prawf penodedig. Felly, gweinyddiaethau'r pysgodfeydd sy'n gyfrifol am faint o gwota a ddyrennir iddynt gan Lywodraeth y DU. [3].

Mae'r sector yn gyfrifol am reoli cwotâu fel y gwêl y sefydliadau cynhyrchu'n dda, mae'r grŵp y tu allan i'r sector yn cytuno ar derfynau misol fesul llong, ac mae'r grŵp o dan ddeg fel arfer yn pennu terfyn i'r grŵp sy'n berthnasol i bob llong.[4]

Yn 2012, roedd fflyd bysgota Cymru yn cynnwys 479 o longau, ac roedd 440 o'r rhain yn perthyn i'r grŵp o dan ddeg.[5] Mae hynny'n golygu i bob pwrpas, o ystyried cyfyngder y pellteroedd y gall llongau o'r fath deithio, bod y rhan fwyaf o bysgota yng Nghymru ar raddfa fach ac yn arfordirol. Fodd bynnag, er gwaethaf maint y fflyd, mae rhai llongau o Gymru yn dal i bysgota am rywogaethau sy'n destun cwota. Nid yw'r manylion ynghlych sut y caiff yr arian hwn ei rannu yn y DU wedi eu cyhoeddi eto.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Strategol y Môr a Physgodfeydd[6] ym mis Tachwedd 2013, a nododd tri phrif bysgodfa yng Nghymru:

– **Pysgodfeydd cocos**: Yn hanesyddol, dyma rai o bysgodfeydd mwyaf gwerthfawr Cymru. Nid yw'r stoc hon yn destun cwota.

– **Pysgodfeydd cramenogion**: Dyma y mae fflyd bysgota Cymru yn ei gynnwys yn bennaf h.y. pysgota am grancod a chimwch gyda chewyll. Nid yw'r rhain yn destun terfynau o ran cyfanswm y ddalfa a ganiateir ond gallant fod yn destun yr isafswm maint glanio o dan gyfraith y DU.

---

[2] Y Sefydliad Rheoli Morol, ***Fisheries Quota Guidance Management***, Mawrth 2013 [fel ar 20 Mai 2014]

[3] Y Sefydliad Rheoli Morol, ***Fisheries Quota Guidance Management***, Mawrth 2013 [fel ar 20 Mai 2014]

[4] Y Sefydliad Rheoli Morol, ***Fisheries Quota Guidance Management***, Mawrth 2013 [fel ar 20 Mai 2014]

[5] Y Sefydliad Rheoli Morol, ***UK Sea Fisheries Statistics 2012***, [fel ar 20 Mai 2014]

[6] Llywodraeth Cymru, ***Cynllun Gweithredu Strategol y Môr a Physgodfeydd***, Tachwedd 2013 [fel ar 20 Mai 2014]

– **Pysgodfeydd draenogod y môr**: Mae'r rhain yn bwysig i fflydoedd pysgota de a de-orllewin Cymru, ac nid ydynt yn stoc sy'n destun cwota ar hyn o bryd, ac, felly, nid oes unrhyw gyfyngiadau perthnasol o dan y gwaharddiad ar daflu pysgod yn ol i'r môr. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr (corff sy'n cynghori'r UE o ran cwotâu) wedi argymell y dylid lleihau'n sylweddol faint o ddraenogod y môr y caniateir eu dal ledled Ewrop[7].

## Monitro'r gwaharddiad ar daflu pysgod yn ôl i'r môr

Mae'n ofynnol i aelod-wladwriaethau gadw dogfennaeth fanwl a chywir ynghylch pob taith bysgota ac i sicrhau bod cydymffurfiaeth yn cael ei fonitro'n effeithiol, gan ddefnyddio mesurau fel swyddogion monitro annibynnol a chamerau cylch cyfyng ar longau.

Yng Nghymru, bydd y gwaith o orfodi cwotau, ac felly'r gwaharddiad ar daflu pysgod yn ol i'r môr, yn cael ei wneud o Aberdaugleddau gan Swyddogion Gorfodi Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Fflyd Diogelu Pysgodfeydd y Llynges Frenhinol. Mae ganddynt bŵer i gynnal archwiliadau o longau ar y tir a'r môr, yn ogystal â marchnadoedd pysgod. Gellir gofyn i atal trwyddedau dros dro neu gymryd camau erlyn.

Nodir y camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r gwaharddiad ar daflu pysgod yn ôl i'r môr yn nyfroedd tiriogaethol Cymru yng Nghynllun Gweithredu Strategol y Môr a Physgodfeydd8. Nodir yr ymrwymiad perthnasol yn Amcan 2 (Cyf. 2.4) y Cynllun Gweithredu9.

[7]Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr, ***ICES Advice for 2013 for European seabass in the North East Atlantic***, Medi 2012 [fel ar 21 Mai 2014]
[8]Llywodraeth Cymru, ***Cynllun Gweithredu Strategol y Môr a Physgodfeydd***, Tachwedd 2013 [fel ar 20 Mai 2014]
[9] Llywodraeth Cymru, ***Cynllun Gweithredu Strategol y Môr a Physgodfeydd***, Tachwedd 2013 [fel ar 20 Mai 2014]

Wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Cynllun Gweithredu Strategol, dywedodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd:

> Officials are working with the fishing industry in Wales to establish a programme of monitoring to collect data on discards within the fisheries affected. Science officers will be working aboard fishing vessels this Summer to collect that data and inform the evidence put forward to the EU Commission.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu creu grwpiau rhanbarthol yn 2014 er mwyn sicrhau cyfraniad effeithiol i'r diwydiant o ran trwyddedu a rheoli cwotâu. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i ddatblygu rheoliad i drosglwyddo'r PPC diwygiedig yn rhan o gyfraith y DU. Disgwylir ymgynghoriad ynghylch y rheoliad gweithredu arfaethedig yn fuan.

## Ariannu

Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yw'r offeryn ariannol newydd a fydd yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r PPC diwygiedig ac yn helpu pysgotwyr wrth iddynt drosglwyddo i'r drefn newydd. Disgwylir i'r gronfa fod ar waith rhwng 2014 a 2020, ac mae'n un o bum Cronfa Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Caiff bob gwlad canran o Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn seiliedig ar faint ei diwydiant pysgota, a bydd pob gwlad yn llunio cynllun strategol ar gyfer gwario'r arian a gaiff. Rhaid i'r Comisiwn gymeradwyo'r cynllun hwn cyn rhyddhau unrhyw arian.

Cynhaliwyd ymgynghoriad yn ddiweddar gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar sut y caiff Cronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop ei dyrannu a'i gweithredu yn y DU.10 Er nad yw'r Comisiwn wedi penderfynu'n derfynol faint o arian a ddyrennir i bob aelod-wladwriaeth, mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn tybio y caiff y DU €138m ar gyfer y gyllideb graidd, €24 miliwn ar gyfer y gyllideb orfodi a € 30 miliwn ar gyfer y gyllideb casglu data.

O ran gwahardd taflu pysgod yn ôl i'r môr yn benodol, mae cynllun Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn cynnwys cynnig i ddyrannu arian o Gronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop i wella'r sector pysgodfeydd a'i fflyd. Er enghraifft, gellir ariannu'r gwaith o brynu offer newydd, sydd â'r gallu i ddethol pysgod yn ôl maint, ar gyfer llongau pysgota er mwyn gweithio tuag at y nod o beidio â thaflu pysgod yn ôl i'r môr.

Yn unol â Chronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop, mae'n ofynnol i'r aelod-wladwriaethau ddyrannu canrannau o'r gyllideb gyffredinol i bum 'blaenoriaeth undeb' ar wahân. Mae'r cyntaf o'r blaenoriaethau hyn yn ymwneud â physgodfeydd cynaliadwy – gan gynnwys gwahardd taflu pysgod yn ôl i'r môr.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig dyrannu 22.7% o unrhyw gyfran a gaiff o Gronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop i flaenoriaeth undeb 1. Mae'r Alban yn dyrannu 28.2%, mae Gogledd Iwerddon yn dyrannu 40% ac mae Lloegr yn dyrannu 55.5%.

[10] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, ***Consultation on the European Maritime and Fisheries Fund***, Mawrth 2014 [fel ar 22 Mai 2014]

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am wahardd taflu pysgod yn ôl i'r môr, cysylltwch â **Nia Seaton** (**Nia.Seaton@cymru.gov.uk**), yn y Gwasanaeth Ymchwil.

Gweler hefyd:

Gwefan yr UE ar **wahardd taflu pysgod yn ôl i'r môr**

Diweddariad Polisi'r UE ar **Ddiwygio’r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin**, gan y Gwasanaeth Ymchwil

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@SeneddYmchwil**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae’r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio’r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau’r Cynulliad a’u staff cymorth. Mae’r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn ag Aelodau a’u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o’r cyhoedd.

**Rhif yr ymholiad: 14/1472**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales